Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Oeddech chi'n gwybod?

Mae grantiau ar gael i helpu teuluoedd ar incwm isel brynu dillad a chyfarpar ysgol.

## Mae blynyddoedd ysgol newydd bellach yn gymwys ac mae meini prawf wedi'u hymestyn i gynnwys gliniaduron neu dabledi



Gall plant sy'n derbyn gofal a dysgwyr sy'ncael prydau ysgol am ddim gael grant gan Lywodraeth Cymru os ydynt:

- yn dechrau dosbarth derbyn mewn ysgol gynradd, ac
- ar ddechrau unrhyw un o'r cyfnodau allweddol, e.e. Cyfnod Allweddol 2, 3, 4 (cynradd ac uwchradd).
- Mae Blynyddoedd 1, 5, 8, 9 ac 11, hefyd bellach yn gymwys.
- Oedrannau cyfatebol mewn ysgolion arbennig, canolfannau Adnoddau anghenion arbennig neu unedau cyfeirio disgyblion.

Bydd gan blant ysgolion cynradd ac uwchradd yr hawl i **£125** ar gyfer pob cais.

Gall plant sy'n dechrau Blwyddyn 7 wneud cais am **£200** i helpu gyda chostau ychwanegol dechrau yn yr ysgol uwchradd.

Felly mae dosbarth derbyn a blynyddoedd **ysgol 1, 3, 5, 7, 8, 9, 10 ac 11** i gyd bellach yn gymwys.

Bydd y gronfa'n cynnwys gwisg ysgol a phecyn chwaraeon, offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys dysgu yn yr awyr agored, ac offer ar gyfergweithgareddau o fewn y cwricwlwm.

O fis Chwefror 2021 mae'r gronfa bellach yn **cynnwys prynu gliniadur neu dabled.**

**Sut i wneud cais**
Cysylltwch â'ch awdurdod lleol:
llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission